Partneriaeth
Cynllun
Cymunedol
Castell-nedd
Port Talbot

# Cynllun Cymunedol Castell-nedd Port Talbot 2010 - 2020

Cyfle Gwell i Bawb

Dyma’r trydydd Cynllun Cymunedol Castell-nedd Port Talbot y mae Partneriaeth Cynllun Cymunedol Castell-nedd Port Talbot wedi’i gynhyrchu.

Fe'i cyhoeddwyd yn Ebrill 2010 yn unol ag adran 39 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Cynllun ar gael ar wefan y Cyngor www.npt.gov.uk.
Os hoffech gael copi caled, neu am yr wybodaeth hon mewn print bras neu fformat arall, ffoniwch Dîm y Strategaeth Gorfforaethol ar 01639 763173 neu e-bostiwch corporate.strategy@npt.gov.uk

# RHAGAIR



*Y Cynghorydd Ali Thomas, Arweinydd*
*Cyngor Bwrdeistref Port Talbot Castell-nedd Port Talbot*

Diwygiwyd Cynllun Cymunedol Castell-nedd Port Talbot yn unol ag arweiniad statudol ac mae wedi defnyddio barn amrywiol ac eang a fynegwyd gan y cyhoedd a sefydliadau partner yn ogystal â defnyddio cynlluniau a strategaethau allweddol cyfredol a chronfeydd tystiolaeth y partneriaethau amrywiol.

Bydd yr heriau anodd sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol ar hyn o bryd yn parhau ac mewn rhai enghreifftiau, yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r gwaith sydd eisoes yn digwydd ar draws y sectorau amrywiol ac ymroddiad y partneriaethau a fynegir drwy'r Cynllun Cymunedol yn rhoi sylfaen gref i bob un ohonom weithio gyda'n gilydd i wynebu a goresgyn yr heriau hyn.

Er bod y Cynllun Cymunedol yn ddogfen strategol allweddol i Gyngor y Fwrdeistref Sirol, mae hefyd yn gynllun y bobl, ac yn hyn o beth, ceisiwyd cyflwyno dogfen sy'n glir ac yn ystyrlon lle mae'r blaenoriaethau'n sylweddol. Mae'r cynllun yn ddogfen fyw a fydd yn esblygu ac yn adlewyrchu'r hinsawdd economaidd, gymdeithasol ac amgylcheddol gyfnewidiol yn y dyfodol.

Gall pob un ohonom wneud gwahaniaeth ac mae'r Cynllun Cymunedol yn fodd i ni wella'r Fwrdeistref Sirol a bywydau'r holl ddinasyddion sy'n byw ac yn gweithio ynddi ac yn gwirfoddoli yn ei chymunedau.

Credaf y gall pob un ohonom wneud gwahaniaeth nid yn unig yn ein bywydau ein hunain a'n ffrindiau a'n teuluoedd ond hefyd yn ein cymdogaethau a'n cymunedau. Bwriad y Cynllun Cymunedol yw datgan ein gweledigaeth i wella'r Fwrdeistref Sirol a bywydau'r holl ddinasyddion sy'n byw ac yn gweithio yma.

# CYNNWYS

**Rhagarweiniad** ........ **1**

**Yr Heriau Allweddol** ........ **2**

**Cyflawni gyda'n Gilydd** ........ **5**

**Y Weledigaeth** ........ **6**

**Blaenoriaethau** ........ **10**

Cymunedau Hyderus ........ **11**

Yr Amgylchedd ........ **12**

Addysg a Dysgu Gydol Oes ........ **13**

Trafnidiaeth ........ **14**

Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ........ **15**

Ffyniant Economaidd ........ **16**

Diogelwch Cymunedau ........ **17**

**Partneriaethau a Monitro** ........ **18**

**Mesurau Cynnydd** ........ **19**

# RHAGARWEINIAD

Ers lansio'r Cynllun cyntaf yn 2002, bu Partneriaeth y Cynllun Cymunedol yn gweithio'n galed i roi'r Cynllun partneriaeth allweddol hwn ar waith, ac sydd bellach yn disgrifio'r weledigaeth a'r blaenoriaethau newydd a rennir. Byddwn yn helpu i wireddu'r weledigaeth ddeng mlynedd drwy roi blaenoriaethau gosodedig y pedair blynedd nesaf ar waith.

Wrth fynd ati i adolygu'r Cynllun Cymunedol, roeddem yn ddiolchgar i dderbyn barn cynifer o sefydliadau ac unigolion gyda rhai'n gofyn am gynnwys mwy o wybodaeth benodol a manwl. Fodd bynnag, mae'r manylion hynny yn y cynlluniau a'r strategaethau cefnogi sy'n bwydo'r Cynllun hwn.

Defnyddiwyd data a gwybodaeth sy'n deillio o ystadegau cenedlaethol a lleol ac asesiadau anghenion i gynhyrchu 'ciplun' o rai o'r materion allweddol sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol. Fe'u defnyddiwyd fel cyd-destun ar gyfer y blaenoriaethau sy'n dilyn.

Y nod fu nodi elfennau gweledigaeth o'r cynlluniau a'r strategaethau allweddol cyfredol ac i ddisgrifio beth yw'r sefyllfa y byddem yn dymuno bod ynddi. Yr her oedd ystyried hyn o safbwynt partneriaeth eang oherwydd dyma ddogfen strategol allweddol i Gyngor y Fwrdeistref Sirol a'i bartneriaid. Fodd bynnag, rhaid i bersbectif y bobl leol fod oruchaf, felly ymdrechwyd i gynnwys blaenoriaethau ystyrlon a sylweddol gan ddefnyddio iaith uniongyrchol.

Mae'r cynllun diwygiedig yn datblygu saith thema sy'n adlewyrchu anghenion a dyheadau ein cymunedau lleol. Mae tair egwyddor arweiniol, sef datblygiad cynaliadwy, cynhwysiad cymdeithasol a thegwch yn sail i'r Cynllun. Fodd bynnag, mae llwyddiant yn dibynnu ar yr holl bartneriaid yn cyflawni gyda'i gilydd er lles yr holl gymunedau ar draws y Fwrdeistref Sirol.

# YR HERIAU ALLWEDDOL

Mae pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Fwrdeistref Sirol wedi dweud ei bod yn lle da i fyw ynddi oherwydd eu bod yn gyffredinol yn teimlo'n ddiogel; mae'r amgylchedd yn dda; mae cyfleoedd swyddi rhesymol a gallant gael tai fforddiadwy, derbyniol a gwasanaethau cyhoeddus da.

Fodd bynnag, ni all Cynllun Cymunedol diwygiedig aros gyda'r cynnydd sylweddol a gafwyd eisoes, ond rhaid iddo ganolbwyntio ar edrych ymlaen ac wynebu'r heriau sylweddol niferus. Mae'r rhain yn cynnwys y galw cynyddol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl hŷn a gwasanaethau plant a llai o obaith am swyddi. Adlewyrchir y materion hyn gan y ffeithiau allweddol am y Fwrdeistref Sirol.

**Ffeithiau allweddol am Gastell-nedd Port Talbot**

- Cyfanswm poblogaeth y Fwrdeistref Sirol yw 137,600. Rhagfynegir y bydd y boblogaeth wedi cynyddu 17.2% erbyn 2031 o'i chymharu â phoblogaeth sylfaen 2006 - 23,600 yn fwy o bobl a 3% yn uwch na'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru. Rhaid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r twf rhagamcanol hwn am ei fod wedi'i seilio ar dueddiadau blaenorol. Hwyrach y byddai'n fwy realistig rhagweld y bydd tua traean o'r twf poblogaeth hwn yn cael ei wireddu. Serch hynny, yn sicr fe fydd twf cyson yn nifer y bobl dros 65 oed a thros 85 oed;

- Mae 21% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, gyda chadarnleoedd y Gymraeg yng nghymunedau'r cymoedd;

- Ar adeg Cyfrifiad 2001, roedd 1.1% o gyfanswm y boblogaeth breswyl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a du;

- Mae bron 60% o'r boblogaeth yn oedran gweithio; ond 71% yn unig o'r rhain sy'n economaidd weithgar - yr ail ganran isaf yng Nghymru. Mae 8% o'r boblogaeth oedran gweithio'n ddi-waith, y 10$^{fed}$ ganran uchaf yng Nghymru ac mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 7.7%. Mae 29% (23,900) o'r boblogaeth oedran gweithio yn anweithgar yn economaidd, ac o'r rhain, y mae 7.6% (6,300) yn dymuno cael swydd. Mae lefelau'r hunangyflogedig yr isaf yng Nghymru, gyda 2.8% yn unig o'r boblogaeth weithio yn hunangyflogedig

- Mae'r tâl wythnosol gros i weithwyr amser llawn yn is na chyfartaledd Cymru ac mae incwm aelwydydd ar gyfartaledd yn sylweddol is na'r cy fartaledd yn ardal Bae Abertawe. Mae llawer o'r boblogaeth oedran gweithio yn dibynnu'n drwm ar fudd-daliadau gyda 27.7% yn hawlio budd-daliadau o'i gymharu ag 20.4% yng Nghymru. Mae hawliadau budd-dal analluedd yn arbennig o uchel;

- Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2008 yn tanlinellu heriau tlodi ac amddifadedd yn enwedig ymhlith cymunedau mwy ynysig. O'r 91 ardal ddaearyddol fach yn y Fwrdeistref Sirol (ardaloedd cynnyrch ehangach haen is), roedd 17 ymhlith y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru;

- Yn 2007/08, roedd tua 9000 o ddisgyblion ysgolion uwchradd yng Nghastell-nedd Port Talbot. Serch hynny, ar hyn o bryd mae nifer y disgyblion ar y gofrestr yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn parhau i ddisgyn o flwyddyn i flwyddyn. Mae ôl-groniad sylweddol o waith atgyweirio a gwelliannau yn ysgolion y sir. Yn y Fwrdeistref Sirol, mae gan tua 22% o blant ysgolion cynradd hawl i ginio ysgol am ddim, sy'n ddangosydd amlwg o dlodi;

- Yn 2008, roedd nifer y myfyrwyr ôl-16 a enillodd gymwysterau yn uchel gydag 80.5% yn ennill 2 Safon Uwch graddau A-C - sef cydradd drydedd o ran cyrhaeddiad yng Nghymru. Enillodd 88% o ddisgyblion 5 TGAU graddau A*-G, sef y chweched uchaf yng Nghymru. Fodd bynnag, ni chafodd 3.7% o ddisgyblion unrhyw gymwysterau - y nawfed ganran uchaf yng Nghymru;

- Yn 2009, roedd cynnydd sylweddol yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal a'r plant y mae eu henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, a hynny'n golygu mwy o alw ar wasanaethau gwaith cymdeithasol. Er enghraifft, ym mis Hydref 2008, rhoddwyd enwau 135 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a 283 o Blant sy'n Derbyn Gofal. Erbyn mis Mawrth 2010, roedd y niferoedd wedi codi i 167 a 383 yn y drefn honno. Mae'r cynnydd sylweddol hwn yng nghymhlethdod anghenion plant yn gosod pwysau enfawr ar alluedd ac adnoddau'r gwasanaethau.

- Un o'r heriau mawr yw mynd i'r afael ag iechyd gwael, yn enwedig gan fod disgwyliad oes yng Nghastell-nedd Port Talbot ymhlith y gwaethaf ym Mhrydain. Mae'r lefelau uwch na'r cyfartaledd o rai cyflyrau iechyd cronig yn her arbennig i'r gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a

chymunedol eraill. Yn ôl Cyfrifiad 2001, mae bron 30% o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol yn dioddef o salwch cyfyngol hir dymor, sef yr ail uchaf yng Nghymru. Mae alcohol hefyd yn berygl sylweddol i iechyd;

- Mae lefelau cyffredinol troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau i ostwng yn y Fwrdeistref Sirol. Wrth gwrs, nid yw'n syndod mai yn yr ardaloedd trefol mawr y mae lefelau troseddu ar eu huchaf; a'r math mwyaf cyffredin o droseddu yw difrod troseddol;

- Mae'r materion amgylcheddol lleol yn niferus ac yn amrywiol. Mae'r ymdrechion i gyrraedd targedau i gadw strydoedd a phriffyrdd yn lân ac ailddefnyddio neu ailgylchu gwastraff bwrdeistrefol yn parhau. Yn ystod 2008/09, 42% yn unig o wastraff bwrdeistrefol a aeth i safleoedd tirlenwi - un o'r perfformiadau gorau yng Nghymru. Un o'r pryderon am gylcheddol penodol yw llygredd aer. Yn ystod 2008, roedd 34 achlysur lle roedd y llygredd yn uwch na'r terfyn tymor byr a osodwyd gan y llywodraeth, ond mae ansawdd yr aer yn gwella, gyda 15 yn unig o achlysuron yn uwch na'r lefel dderbyniol yn 2009;

- Yn y Fwrdeistref Sirol y mae'r cyfanswm hydoedd ffyrdd lleiaf yn ardal De-orllewin Cymru. Fodd bynnag, mae ganddi sawl cyffordd ar yr M4 a'r nifer mwyaf o gilomedrau traffordd yn y rhanbarth. Mae ôl-groniad sylweddol o gynlluniau atgyweirio a gwella priffyrdd.

Mae'r uchod - a ddaw o ystadegau cenedlaethol/lleol ac asesiadau anghenion - yn dangos ystod amrywiol yr heriau sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol, y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy yn ystod oes y Cynllun Cymunedol diwygiedig ac wedi hynny. Mae'n rhaid ystyried y weledigaeth a'r blaenoriaeth sy'n dilyn yn y cyd-destun hwn.

# CYFLAWNI GYDA'N GILYDD

Mae'r holl bartneriaid, gan gynnwys sefydliadau'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol gyda'i gilydd yn ymrwymedig i gyflwyno gweledigaeth a blaenoriaethau'r cynllun hwn. Nid oes gan Gyngor y Fwrdeistref Sirol fonopoli ar gyflwyno gwasanaethau, ac mae'n rhaid i holl ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus ymdrechu i barhau i gyflwyno gwasanaethau rhagorol i bobl Castell-nedd Port Talbot. Mae hwn yn gynllun i bawb ac mae'n rhaid bod yr holl strategaethau a chynlluniau eraill yn ei ategu er mwyn helpu i'w gyflwyno.

Mae ymrwymiad a chyfranogiad yr holl ddinasyddion a chymunedau yn allweddol os yw'r cynllun hwn i lwyddo i wneud gwahaniaeth. Os ydym yn byw, yn gweithio neu'n gwirfoddoli yn y Fwrdeistref Sirol, mae'n rhaid i bob un ohonom gymryd mwy o gyfrifoldeb am ein gweithredoedd fel unigolion, gan sicrhau nad ydynt yn effeithio'n negyddol ar eraill ac ar y gymuned.

Er mwyn llwyddo, mae'n rhaid cael arweinyddiaeth gymunedol a gwleidyddol gadarn, gwaith partneriaeth effeithiol, rhannu gwybodaeth a chynnwys cymunedau mewn ffordd ystyrlon. Mae gwella gwasanaethau'n hanfodol i sicrhau bod gwasanaethau'n gyfoes, yn ymatebol, yn hawdd eu cael, yn effeithlon ac yn cael eu cyflwyno ar draws ffiniau sefydliadol a daearyddol. Nid yw cynnig mwy o'r un fath yn opsiwn ac mae hyn yn cynnwys rhoi mwy o bwyslais ar waith atal wrth gyflwyno gwasanaethau.

Mae tair egwyddor arweiniol, sef datblygiad cynaliadwy, cynhwysiad cymdeithasol a thegwch yn sail i'r Cynllun hwn. Mae'n golygu gweithio ar draws themâu'r Cynllun, gan lunio'r cysylltiadau angenrheidiol a gweithio gyda dinasyddion o'r grwpiau amrywiol a niferus sy'n bodoli yn y Fwrdeistref Sirol.

Mae'n rhaid i ni ystyried y rhai sydd hwyrach yn cael eu heithrio o wasanaethau oherwydd eu bod yn perthyn i grwpiau yr ystyrir eu bod o dan anfantais yn gymdeithasol, ynghyd â'r rhai sydd mewn perygl o ddioddef gwahaniaethu oherwydd oedran, rhyw, anabledd, cyfrifoldebau gofalu, hil, iaith, rhywioldeb, statws priodasol neu ffydd/gred.

Bydd yr ymagwedd hon at gyflwyno blaenoriaethau'r Cynllun yn helpu i gynnal cymunedau iach, cynaliadwy, annibynnol ac integredig yn y Fwrdeistref Sirol.

# Y WELEDIGAETH

Nid yw rhagweld y dyfodol i bobl leol a'u cymunedau'n waith hawdd. Mae'n anodd rhagweld tair neu bedair blynedd ymlaen, heb sôn am ddeng mlynedd, ac mae'r rhagolygon economaidd byd-eang ar hyn o bryd yn gwneud yr ansicrwydd yn waeth.

Fodd bynnag, mae'n gwbl amlwg y bydd cyllidebau'r sector cyhoeddus o dan bwysau aruthrol dros y dyfodol y gellir ei ragweld a bydd yr her o gynnal a gwella gwasanaethau felly'n brawf ar yr holl ddarparwyr gwasanaeth. O ganlyniad, bydd yn rhaid i wasanaethau cyhoeddus fod yn fwy hyblyg ac addasadwy a bydd gofyn i ddarparwyr weithio mwy gyda'i gilydd nag erioed i gyflwyno canlyniadau gwell a mwy o werth i'r cyhoedd. Bydd yn rhaid gafael yn sicr yn y cyfleoedd a ddaw er enghraifft drwy Arian Cydgyfeirio Ewrop.

Mae felly'n hanfodol, fel rhan o'r Cynllun Cymunedol, i'r holl ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus adolygu'r hyn a wnânt a sut er mwyn bod yn dra effeithiol ac effeithlon. Bydd gofyn i ddarparwyr gwasanaethau ystyried sut bydd unrhyw newidiadau yn y gwasanaethau yn effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir gan eraill ac integreiddio cyflwyno gwasanaethau lle bo hynny'n bosib.

Mae llawer sy'n gadarnhaol, ond mae'n rhaid i ni fod yn realistig a chanolbwyntio ar gyflwyno canlyniadau i ddinasyddion a chymunedau sy'n adlewyrchu gobeithion a dyheadau'r bobl, eu teuluoedd a'u cymunedau lleol, ac sy'n ystyrlon yn y cyd-destun cyhoeddus ehangach. Yr hyn fydd yn deillio o hynny fydd mwy o bobl a chymunedau'n cyfranogi wrth gynllunio'r gwasanaethau cyhoeddus y maent yn eu derbyn ac yn dylanwadu'n fwy ar benderfyniadau sy'n effeithio ar ansawdd eu bywydau a lles eu cymunedau.

Mae Bwrdd y Gwasanaethau Lleol yn offeryn allweddol i yrru'r broses hon a sicrhau bod gweledigaeth y Cynllun Cymunedol yn cael ei gwireddu, gyda phob phartner yn atebol, a chan fonitro ac adrodd ar y cynnydd i gymunedau lleol.

Wrth wireddu'r weledigaeth, bydd yn rhaid hefyd ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol cytunedig. Mae'r rhain yn cynnwys blaenoriaethau i wella gwasanaethau cyhoeddus fel y cânt eu disgrifio yn

nogfen "Cymru'n Un" a "Cyflawni ar Draws Ffiniau" Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ogystal â Chynllun Gofodol Cymru "Pobl, Lleoedd, Dyfodol", gyda'r nod o sicrhau bod gwasanaethau wedi'u hintegreiddio ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol mewn chwe ardal ofodol ar draws Cymru. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer Bae Abertawe - ardal y Glannau a Chymoedd y Gorllewin, y mae Castell-nedd Port Talbot yn rhan ohoni, yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun Cymunedol hwn.

Mae cynlluniau a strategaethau partneriaeth mwy penodol yn cefnogi'r Cynllun Cymunedol, megis y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, y Cynllun Diogelwch Cymunedol a'r Cynllun Datblygu Lleol.

Mae gan y rhan fwyaf o'r rhain amserlenni byrrach na'r Cynllun Cymunedol, a rhaid iddynt weithredu fel ysgogwyr i wella gwasanaethau yn y ffordd a ddisgrifir yma fel bod yr holl ddarparwyr gwasanaethau'n gweithio i'r un agenda a rennir. Bydd hyn yn ein harwain at y weledigaeth i Gastell-nedd Port Talbot yn 2020.

Roedd datganiad gweledigaeth y Cynllun Cymunedol blaenorol fel a ganlyn:

”Drwy weithio gyda'n gilydd, byddwn yn creu dyfodol mwy ffyniannus, gwyrdd, diogel a hyderus gyda gwell addysg ac iechyd ar gyfer pobl a chymunedau Castell-nedd Port Talbot.”

Er bod y datganiad hwn yn parhau'n gwbl ddilys, ac y bydd felly hyd at 2020, mae'n canolbwyntio'n bennaf ar yr hyn y bydd partneriaid y Cynllun Cymunedol yn ei wneud i bobl a chymunedau lleol yn hytrach na mynd i'r afael â chanlyniadau gwirioneddol. Gellir mynegi hynny mewn ffordd sy'n canolbwyntio mwy ar ein dinasyddion:

**”Ein dymuniad yw bod Castell-nedd Port Talbot yn ardal lle mae gwasanaethau lleol yn helpu pobl i ofalu amdanynt eu hunain, ei gilydd a'u cymunedau; gyda chyfle gwell i bawb – mewn amgylchedd mwy gwyrdd, iachach a mwy diogel.”**

Mae'r weledigaeth hon ar gyfer y deng mlynedd nesaf yn golygu y bydd y canlynol yn wir erbyn 2020:

- Mwy o bobl yn gallu defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o safon sy'n adlewyrchu anghenion ac a ddarperir mor agos â phosib at eu cartrefi. Bydd achosion afiechyd wedi cael sylw mwy effeithiol gyda mwy o bobl yn cael eu hannog i fabwysiadu ffyrdd iachach o fyw. Bydd pobl anabl, sâl neu fregus yn aros yn eu cartrefi am gyfnodau hwy gyda chefnogaeth gan eu cymunedau lleol a'u gwasanaethau. Bydd mwy o ffocws ar weithio gyda busnesau lleol ar fentrau hybu iechyd i weithwyr ac ymyrryd cynnar i'r rhai â chyflyrau iechyd cronig.

- Bydd plant yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol gwell ac yn cael eu diogelu'n effeithiol rhag cam-drin ac esgeulustod. Bydd gwasanaethau integredig i blant, gyda mwy o ffocws ar atal, yn helpu i leihau nifer y plant mewn angen, mewn perygl ac ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

- Bydd mwy o ddewis o dai da sy'n hwylus ac yn fforddiadwy, gyda chefnogaeth mewn llety yn ôl y galw.

- Bydd cyflwr ysgolion ar draws y fwrdeistref sirol a safon y ddarpariaeth - yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar ac mewn sawl clwstwr ysgolion - wedi gwella'n sylweddol gyda'r Rhaglen Gwella Ysgolion yn mynd rhagddi'n dda. Bydd llai o ddisgyblion yn cael eu gwahardd a mwy o blant ag anghenion addysgol arbennig yn cael eu haddysgu yn eu hysgolion lleol.

  Bydd safon y ddarpariaeth a'r cyflawni yn y sector trydyddol hefyd wedi gwella gan ddarparu mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr barhau â'u haddysg a hyfforddiant wedi 16 oed. Bydd mwy o gyfleoedd dysgu fel teulu, gyda rhieni ifanc yn cael gwell addysg.

- Er mwyn cydnabod poblogaeth sy'n heneiddio, bydd amrywiaeth o gyfleoedd i wella sgiliau, dysgu a hyfforddiant ar gael fel bod pobl hŷn yn gallu ymgeisio am swyddi, bod yn annibynnol, parhau'n iach a diogelu eu lles.

- Bydd cymunedau lleol yn fwy ymwybodol o'r cyfleoedd i fwynhau diwylliant, gweithgareddau corfforol, chwarae a chwaraeon.

- Bydd pobl yn teimlo'n fwy diogel a hyderus mewn cymunedau a chanol trefi lleol sy'n hwylus yn ystod y dydd ac yn arbennig, gyda'r nos. Bydd

lefelau troseddu'n isel ac eir i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy raglenni ymyrryd ac atal.

- Rydym yn disgwyl y bydd yr economi leol yn gryf ac yn amrywiol, gan gadw'r sector gweithgynhyrchu craidd ynghyd â sector gwybodaeth sy'n tyfu ac wedi'i seilio ar sgiliau gwell, gweithgareddau ymchwil a datblygu lleol, a sectorau arbenigol megis ynni, mentrau cymdeithasol a thwristiaeth.

  Bydd y fwrdeistref sirol yn gefnogol i fusnesau, yn hybu busnesau gwyrdd ac adeiladu cynaliadwy. Bydd busnesau bach brodorol yn ffynnu, gan gefnogi holl sectorau'r economi, a bydd yr economi ranbarthol yn gryfach o ganlyniad i geisiadau llwyddiannus am arian Cydgyfeirio Ewrop ac wedi'u seilio ar Gynllun Gofodol Cymru.

- Bydd lefelau anweithgarwch economaidd wedi disgyn gyda chefnogaeth amrywiol ar gael i helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith - a bydd gwell cyfleoedd i bobl ifanc gael swyddi, gan barhau â'u haddysg neu ddefnyddio cyfleoedd hyfforddi, gan gynnwys prentisiaethau.

- Bydd tagfeydd ar hyd yr M4 wedi'u lliniaru drwy gwblhau rhwydwaith y ffordd ddosbarthu ymylol a bydd mwy o gludiant cyhoeddus a chymunedol cynhwysfawr ar gael, ar gyfer y gwaith neu bleser, gan roi mwy o ddewis i ddinasyddion a lleihau'r angen am ddefnyddio ceir preifat. Bydd cysylltiadau rheilffordd, bws a ffyrdd wedi'u hintegreiddio'n well a bydd rhwydwaith o lwybrau, llwybrau ceffyl a llwybrau beicio'n cael eu cynnal, gyda mwy o fusnesau'n darparu cyfleusterau i feicwyr.

- Bydd ôl troed carbon Castell-nedd Port Talbot dipyn yn llai gydag ynni'n cael ei ddefnyddio'n fwy effeithlon. Bydd llygredd aer, dŵr a thir yn gwella a hynny'n rhoi amgylchedd glanach sy'n cael ei gynnal yn dda a phobl a chymunedau lleol yn cymryd cyfrifoldeb dros hynny. Bydd bioamrywiaeth cynefinoedd yn cael ei amddiffyn o hyd a bydd y gwastraff a gynhyrchir yn lleihau wrth i lefelau ailgylchu gynyddu a'r defnydd lleiaf posib o safleoedd tirlenwi.

# BLAENORIAETHAU

Rydych wedi dweud mai mewn lle da i fyw y bydd lefelau troseddu'n isel, tai fforddiadwy a derbyniol, strydoedd glân, gwasanaethau iechyd da, gweithgareddau i bobl ifanc, rhagolygon da am swyddi a chludiant cyhoeddus da.

Rydych hefyd wedi dweud wrthym yr hyn y mae angen ei wella **fwyaf** yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae hyn yn cynnwys:

- Gweithgareddau i bobl ifanc
- Atgyweirio ffyrdd a phalmentydd
- Rhagolygon am swyddi
- Cyfleusterau i blant ifanc
- Strydoedd glân
- Cludiant cyhoeddus

Byddwn yn gweithredu ar yr hyn sy'n bwysig i chi wrth gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus ac yn trawsnewid ein gweledigaeth ehangach i Gastell-nedd Port Talbot yn weithredu. Byddwn yn gwireddu ein gweledigaeth ddeng mlynedd drwy flaenoriaethau tymor canolig, y mae rhai ohonynt yn adlewyrchu eich blaenoriaethau chi, ond y mae pob un ohonynt cyn bwysiced â'i gilydd ac yn drawsbynciol.

Mae'r blaenoriaethau yn y saith thema ganlynol:

- Cymunedau Hyderus
- Yr Amgylchedd
- Addysg a Dysgu Gydol Oes
- Cludiant
- Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- Ffyniant Economaidd
- Diogelwch Cymunedau

# Cymunedau Hyderus -
## Y sefyllfa a ddymunwn erbyn 2014

- Mae ymdeimlad pobl o annibyniaeth, balchder a hyder wedi cynyddu, gan hybu ymdeimlad o i'r gymuned.
- Parhau i fynd i'r afael â thlodi ym mhob agwedd ar fywydau pobl, yn enwedig lle mae'n effeithio ar blant.
- Dathlu iaith, diwylliant ac etifeddiaeth pobl, gan roi ymdeimlad cryf o le a hunaniaeth.
- Tegwch ac amrywiaeth yn cael eu gwerthfawrogi a'u hadlewyrchu mewn gwasanaethau cyhoeddus.
- Effaith gwasanaethau cyhoeddus ar yr amgylchedd, gan gynnwys yr isadeiledd ffisegol angenrheidiol ar gyfer cymunedau cynaliadwy, yn cael ei hadlewyrchu yn y Cynllun Datblygu Lleol a'r prosesau cynllunio.
- Dinasyddiaeth weithredol a lefelau cyfranogiad cymunedol wedi cynyddu; helpu dinasyddion i fynegi eu barn.
- Ymagwedd bartneriaeth at reoli cymdogaethau wedi'i dreialu ac yn cael ei rhoi ar waith.

# Yr Amgylchedd -
## Y sefyllfa a ddymunwn erbyn 2014

- Mae ein hôl troed carbon wedi lleihau'n sylweddol am fod y ffactorau cyfrannol yn lleihau, a hefyd rydym yn addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae adnoddau ynni hefyd yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon gyda chamau i leihau effaith newid yn yr hinsawdd yn cael eu rhoi ar waith gan gynnwys ymateb cyflym i lifogydd a pherygl llifogydd.

- Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o'u cyfrifoldeb i ailddefnyddio, lleihau, arbed ac ailgylchu gwastraff yn amlwg, gan ragori ar dargedau cenedlaethol.

- Helpu i wella iechyd a lles yr holl ddinasyddion; aer, dŵr a thir iach a glân drwy systemau rheoli amgylcheddol cadarn. Hefyd bydd amrywiaeth y cynefinoedd a'r rhywogaethau lleol hefyd yn cael eu rheoli, eu hamddiffyn a'u cyfoethogi'n llwyddiannus; helpu dinasyddion i fwynhau bywyd gwyllt ac amgylchedd iach.

- Mae safon yr amgylchedd adeiledig yn well, gan gynnwys ei hwylustod, gan ddarparu goleuadau stryd effeithlon a fydd hefyd yn helpu i bobl deimlo'n fwy diogel.

- Mae gan yr holl ddinasyddion fannau gwyrdd diogel, glân a hwylus o fewn taith gerdded o'u cartrefi.

# Addysg a Dysgu Gydol Oes -

## Y sefyllfa a ddymunwn erbyn 2014

- Mae camau cychwynnol y Rhaglen Gwella Ysgolion yn cael eu rhoi ar waith gyda chyrhaeddiad addysgol yn gwella, yn enwedig Cyfnodau Allweddol 1 a 2, gyda sgiliau llythrennedd a rhifedd yn gwella.

- Mae mwy o blant diamddiffyn yn ymroi i'r ysgol ac yn cyflawni, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal.

- Mae'r holl bobl ifanc wedi'u paratoi ar gyfer byd gwaith oherwydd bod cynllunio ar gyfer anghenion addysgol pobl ifanc 14-19 oed wedi'i hen sefydlu. Mae mwy o bwyslais ar sgiliau mewn disgyblaethau megis technoleg gwybodaeth ac ar gyfleoedd galwedigaethol megis prentisiaethau, a hynny'n golygu bod llai o bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

- Mae amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau, dysgu a hyfforddiant ar gael ar draws pob oed.

# Trafnidiaeth -
## Y sefyllfa a ddymunwn erbyn 2014

- Mae Cam 2 Ffordd Ddosbarthu Ymylol Port Talbot wedi'i gwblhau a'r tagfeydd ar yr M4 wedi lleihau.

- Mae Gorsafoedd Rheilffordd Port Talbot Parkway a Chastell-nedd wedi gwella ac yn gwbl hygyrch.

- Mae rhwydwaith cludiant cyhoeddus a chymunedol mwy cynhwysfawr, gan gynnwys gwasanaethau tacsi, yn cynnig dewis teithio amrywiol i gymunedau lleol a safleoedd cyflogaeth.

- Mae'r rhwydwaith priffyrdd yn effeithlon ac mae'r ôl-groniad atgyweirio wedi lleihau.

- Mae ymwybyddiaeth pobl o gludiant cynaliadwy, megis cludiant cyhoeddus, cerdded a beicio wedi cynyddu, gyda phobl yn derbyn hynny ac yn ei ddefnyddio.

# Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles -

## Y sefyllfa a ddymunwn erbyn 2014

- Mae mwy o bobl, ynghyd â'r gefnogaeth addas, yn gofalu amdanynt eu hunain, am bobl eraill a'u cymunedau gyda'r pwyslais ar ffyrdd iachach o fyw a gwasanaethau ataliol.

- Mae cysylltiadau gwella iechyd cryfach rhwng y gwahanol strategaethau, cynlluniau a gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a chefnogaeth i annog gweithgaredd corfforol a dewis bwyd iachach, a thaclo smygu, yfed alcohol a chymryd cyffuriau.

- Mae cartrefi preswyl a nyrsio'n gyfoes ac yn addas i'r diben.

- Mae tai cymdeithasol a fforddiadwy wedi, ac yn parhau i gael eu gwella a'u moderneiddio ac mae mwy o gefnogaeth i bawb mewn llety annibynnol. Yn benodol, mae'r bylchau yn y ddarpariaeth i bobl ifanc a'r digartref wedi lleihau, gyda'r digartref diamddiffyn yn gallu cae gwasanaethau gofal iechyd yn haws.

- Mae cefnogaeth ddwys i deuluoedd ag anghenion cymhleth ar gael, yn hygyrch ac yn effeithiol a darperir gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-fwlch rhwng y gwasanaethau plant ac oedolion.

- Mae'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u hintegreiddio ac yn canolbwyntio ar y dinasyddion, ac yn cael eu cyflwyno mewn partneriaeth ar draws asiantaethau. Bydd pwyslais arbennig ar fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n arwain at y ffaith bod plant mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso a cheisio cynyddu nifer y bobl hŷn sy'n byw'n annibynnol drwy ofal a chefnogaeth o safon sy'n gost effeithiol ac wedi'u teilwra ar gyfer yr unigolyn.

- Mae'r gwasanaethau iechyd meddwl a lles, anableddau dysgu, anableddau corfforol a synhwyraidd a gofalwyr wedi gwella ac yn parhau i gael eu gwella, gan helpu i ddiogelu oedolion a phlant diamddiffyn.

# Ffyniant Economaidd -
## Y sefyllfa a ddymunwn erbyn 2014

- Arian Cydgyfeirio yr Undeb Ewropeaidd a chyfleoedd ariannu eraill yn cael eu defnyddio i'r eithaf er mwyn datblygu economïau lleol a rhanbarthol cryfach.

- Mae strategaethau a rhaglenni pwysig megis Pentref Trefol Coed Darcy, Parc Ynni Baglan, Dociau Port Talbot a Chanol y Dref a Champws Arloesedd y Brifysgol yn datblygu'n gyflym gyda chyfleoedd ychwanegol ar gael mewn ardaloedd eraill.

- Mae manteision Ardal Adfywio Strategol Cymoedd y Gorllewin Cynulliad Cymru a Strategaeth Cymoedd y Gorllewin y Fwrdeistref Sirol yn cael eu datblygu i'r eithaf, gan gynnwys datblygu Rheola ac adfywio canol trefi Castell-nedd a Phontardawe.

- Mae nifer y bobl nad ydynt mewn gwaith wedi lleihau oherwydd llwyddiant mentrau megis Cynllun Gweithffyrdd De-orllewin Cymru, Prosiect Coastal a Phartneriaethau Cyflogaeth Lleol. Mae gwasanaethau cefnogi busnesau o safon a mentrau hunangyflogi hefyd yn cael eu defnyddio'n fwy effeithiol.

- Mae cwmnïau uwchdechnoleg wedi datblyg'r Techniwm Technolegau Cynaliadwy.

- Daw menter gymdeithasol yn elfen gynyddol bwysig yn yr economi leol a hynny wedi'i chysylltu â darparu gwasanaethau cyhoeddus eraill. Bydd llunio cysylltiadau gwell rhwng y sectorau gwahanol yn helpu hyn, fel bod bylchau yn y gwasanaeth, a phwy a fyddai'n gallu eu diwallu orau, yn cael eu nodi.

- Mae cyfleoedd twristiaeth hygyrch yn cael eu cyflwyno ar gyfer Cymoedd Nedd, Dulais, Tawe, Aman Uchaf ac Afan Uchaf sy'n gydnaws â'u treftadaeth ac asedau naturiol yr ardaloedd perthnasol.

- Manteisio i'r eithaf ar gymalau cymdeithasol mewn cynlluniau a chontractau gwasanaeth sy'n cynyddu nifer y swyddi lleol ac sy'n hyrwyddo systemau caffael a chasglu nwyddau a deunyddiau, a ddaw, o ddewis, o'r ardal leol.

# Diogelwch Cymunedau -
## Y sefyllfa a ddymunwn erbyn 2014

- Sicrhau tawelu ofnau drwy leihau troseddu ac ofn troseddau.
- Mae gweithgaredd partneriaeth yn parhau i ganolbwyntio ar leihau troseddu gyda phwyslais penodol ar droseddwyr cyson, taclo troseddau treisgar a lleihau aildroseddu.
- Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau'n flaenoriaeth, gyda chanolbwyntio penodol ar ddioddefwyr mynych ac ymagweddau ymyrryd cynnar.
- Eir i'r afael â phroblemau cyffuriau ac alcohol gyda throseddau cysylltiedig yn lleihau oherwydd bod gwasanaethau ataliol a thriniaeth o safon ar gael.
- Mae gwasanaethau a chefnogaeth i ddioddefwyr cam-drin yn y cartref yn gwella gyda mwy o dramgwyddwyr yn cael eu heuogfarnu a gwasanaethau gwell i ddioddefwyr.
- Mae troseddau amgylcheddol, gan gynnwys tipio sbwriel yn anghyfreithlon wedi lleihau eto oherwydd mentrau megis prosiect Taclo Tipio Cymru
- Mae nifer y bobl sy'n dioddef oherwydd gweithgareddau masnachwyr diegwyddor, a rhai'n dioddef oherwydd troseddau, yn lleihau.
- Mae mwy o weithgareddau ar gael yn lleol i'r plant a'r bobl hynny mewn perygl, i'w hatal rhag cymryd rhan mewn ymddygiad troseddol a gwrthgymdeithasol.

# PARTNERIAETHAU A MONITRO

Mae strwythur cadarn o bartneriaethau cefnogi yn gyfrifol am roi themâu'r Cynllun ar waith. Mae'r sector gwirfoddol a chymunedol wedi mabwysiadu strwythur tebyg i'w fforymau, a hwylusir gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, ac mae hynny'n sicrhau deialog gyson rhwng y sectorau statudol a gwirfoddol.

Mae Bwrdd y Gwasanaethau Lleol, sef y prif offeryn ar gyfer ysgogi'r broses hon, yn dod ag arweinwyr a phrif weithredwyr asiantaethau gwasanaethau cyhoeddus ynghyd yn y fwrdeistref sirol. Mae'n ceisio hyrwyddo gwasanaethau integredig a symud y rhwystrau sefydliadol i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol sy'n canolbwyntio ar anghenion dinasyddion.

Caiff y cynnydd ei fonitro gan y partneriaethau cefnogi a chyflwynir adroddiad ar y cynnydd yn flynyddol i Bartneriaeth y Cynllun Cymunedol. Bydd y trefniadau monitro hyn yn ein helpu yn y gwaith o adolygu'r Cynllun a'i addasu wrth i amgylchiadau newid. Bydd adolygiadau ffurfiol bob pedair blynedd, gyda'r adolygiad cyntaf o bwys yn 2014.

Dewiswyd y mesurau cynnydd canlynol i roi syniad o'r cynnydd ar draws themâu'r Cynllun, a chaiff y rhain eu cynnwys mewn adroddiad cynnydd blynyddol, ynghyd â'r diweddaraf ynghylch yr holl flaenoriaethau a gynhwysir yn y cynllun. Bydd y partneriaethau cefnogi yn ymgymryd â'r gwaith o fonitro'n fanylach y cynnydd yn y cynlluniau a'r strategaethau allweddol sy'n sylfaen i'r cynllun hwn.

## MESURAU CYNNYDD

| Thema/Ymrwymiad | Mesur | Prif Gyfrifoldeb/Ffynhonnell |
|---|---|---|
| **Cyflawni Gyda'n Gilydd** | Mae gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i wella ar draws yr holl ddarparwyr gwasanaeth | Y Bwrdd Gwasanaethau Lleol |
| **Cymunedau Hyderus** | Mae pobl yn credu eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu cymdogaethau | Arolwg Panel y Dinasyddion |
| | Ymdeimlad pobl o berthyn | Arolwg Panel y Dinasyddion |
| **Yr Amgylchedd** | Lefelau llygredd aer mewn ardaloedd rheoli ansawdd aer | Fforwm yr Amgylchedd |
| | Effeithiau newid yn yr hinsawdd | Fforwm yr Amgylchedd |
| | Swm yr ailgylchu a'r compostio | Fforwm yr Amgylchedd |
| | Pobl yn derbyn eu cyfrifoldeb dros amddiffyn a gwella eu hamgylchedd | Arolwg Panel y Dinasyddion/Fforwm yr Amgylchedd |

| Thema/Ymrwymiad | Mesur | Prif Gyfrifoldeb/Ffynhonnell |
|---|---|---|
| **Addysg a Dysgu Gydol Oes** | Cyflawniad addysgol disgyblion ysgol Cyfnodau Allweddol 1 a 2 | Partneriaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| | Nifer y bobl ifanc ôl-16 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant | Partneriaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| | Y sgôr pwynt ehangach gyfartalog i ddisgyblion 15 oed mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol | Partneriaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| | Lefel y bobl oedran gweithio heb gymwysterau addysgol | Partneriaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| | Lefelau'r hyfforddiant sy'n gysylltiedig â swyddi yn ystod y 13 wythnos flaenorol ymhlith pawb sydd o oedran gweithio | Partneriaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| **Trafnidiaeth** | Argaeledd y dewisiadau cludiant i helpu pobl gyrraedd swyddi, gwasanaethau a gweithgareddau cymunedol a hamdden | Arolwg Panel y Dinasyddion/ Fforwm Trafnidiaeth Leol |

| Thema/Ymrwymiad | Mesur | Prif Gyfrifoldeb/Ffynhonnell |
|---|---|---|
| **Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles** | Nifer y cartrefi a reolir gan Gartrefi CNPT sy'n bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru | Partneriaeth Tai Lleol |
| | Nifer y tai fforddiadwy a ddarparwyd | Partneriaeth Tai Lleol |
| | Cysylltiadau gwella iechyd yn rhan greiddiol o gynlluniau strategol | Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles |
| | Mae gwasanaethau integredig yn helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol | Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles |
| | Gwasanaethau integredig yn helpu plant diamddiffyn a'u teuluoedd i gael gwell cefnogaeth. | Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles |

| Thema/Ymrwymiad | Mesur | Prif Gyfrifoldeb/Ffynhonnell |
|---|---|---|
| **Ffyniant Economaidd** | Darparu gwasanaethau cefnogi busnesau yn helpu busnesau i ffynnu | Partneriaeth Ffyniant Economaidd |
| | Lefel diweithdra | Partneriaeth Ffyniant Economaidd |
| | Lefel anweithgarwch economaidd | Partneriaeth Ffyniant Economaidd |
| | Y boblogaeth sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith | Partneriaeth Ffyniant Economaidd |
| | Cynlluniau/mentrau cyflogaeth sy'n helpu pobl i baratoi ar gyfer gwaith a dod o hyd iddo | Partneriaeth Ffyniant Economaidd |
| **Diogelwch Cymunedau** | Mae pobl yn cytuno bod yr heddlu a Chyngor y Fwrdeistref Sirol yn mynd i'r afael â'r materion ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu sydd o bwys yn yr ardal | Partneriaeth Castell-nedd Port Talbot Mwy Diogel |
| | Gwasanaethau lleol i bobl sy'n camddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill | Partneriaeth Castell-nedd Port Talbot Mwy Diogel |
| | Achosion cyfeirio'n cael eu cefnogi'n llwyddiannus gan y Gwasanaeth Cynghori Annibynnol ar Gam-drin yn y Cartref | Partneriaeth Castell-nedd Port Talbot Mwy Diogel |